

Amserlen

Penderfyniadau

Is-bwyllgor Trwyddedu

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Tachwedd 2023

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar **31 Hydref 2023**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Allan Morris, Alex Pimm, David Fouweather

LIC PAN 05/23

Adolygiad o Drwydded Mangre o dan adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003, Vizez, 11-15 Cambrian Road, Casnewydd, NP20 4AD

Cefndir

Ar 14 Medi 2023, derbyniodd Cyngor Dinas Casnewydd, fel yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, gais am adolygiad o'r Drwydded Mangre uchod gan Heddlu Gwent, yn unol ag adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Gwnaed cyflwyniadau gan y ddau barti ac fe'u cyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu erbyn 12 Hydref 2023. Rhwng dyddiad cau'r cyflwyniadau a dyddiad y gwrandawriad, sef 31 Hydref 2023, cynhaliwyd cyfarfodydd cyfryngu rhwng deiliad y drwydded, ei gynrychiolydd cyfreithiol, Heddlu Gwent a'r Awdurdod Trwyddedu. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn at amodau cytûn arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

Cynhaliwyd gwrandawriad ar 31 Hydref 2023 i adolygu'r Drwydded Mangre. Roedd aelod o Heddlu Gwent yn bresennol yn y gwrandawriad. Hefyd yn bresennol roedd deiliad y drwydded, a oedd yn cael ei gynrychioli gan ei gyfreithiwr. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan unrhyw unigolion eraill.

Cymerodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyriaeth y ffaith y bu lefel sylweddol o gyfryngu adeiladol rhwng deiliad y Drwydded Mangre a Heddlu Gwent, a oedd yn gweithredu fel yr Awdurdod Cyfrifol, cyn y gwrandawriad, gyda chymorth digonol gan yr Awdurdod Trwyddedu. Nododd y pwyllgor y casgliad drafft o 55 o amodau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod Cyfrifol a deiliad y Drwydded Mangre. Tynnwyd sylw at y ffaith bod amod rhif 36 wedi'i gofnodi'n anghywir, a hysbyswyd y pwyllgor o'r gwelliant cywir y cytunwyd arno'n flaenorol.

Penderfyniad

Cymerodd y panel i ystyriaeth y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed ar ran yr heddlu a deiliad y drwydded yn y gwrandawriad. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd y pedwar amcan trwyddedu a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003 yn ogystal â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Ddeddf honno a Pholisi Trwyddedu'r Cyngor.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu fod yr amodau a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod Cyfrifol a deiliad y Drwydded Mangre, ynghyd â chwtogiad i'r oriau trwyddedu, yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac y dylid eu hychwanegu at y Drwydded Mangre, gan ystyried y newid i Amod 36. Mae'r amodau a gymeradwywyd i'w hatodi i'r Drwydded Mangre ac fe'u nodir yn yr atodlen isod.

ATODLEN: Amodau i'w hychwanegu at y Drwydded Mangre yn dilyn y gwrandawriad ar 31 Hydref 2023.

Dylid ychwanegu'r amodau ac oriau canlynol:

Oriau:

Oriau agor

Diwrnodau'r

wythnos:

Oriau:

Dydd Llun 07:00 – 04:30

Dydd Mawrth 07:00 – 04:30

Dydd Mercher 07:00 – 04:30

Dydd Iau 07:00 – 04:30

Dydd Gwener 07:00 – 04:30

Dydd Sadwrn 07:00 – 04:30

Dydd Sul 07:00 – 04:30

Amseroedd ansafonol ar gyfer gwerthu alcohol (gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle):

• Dim

Lluniaeth

gyda'r hwyr

Diwrnodau'r

wythnos:

Oriau:

Dydd Llun 23:00 – 04:00

Dydd Mawrth 23:00 – 04:00

Dydd Mercher 23:00 – 04:00

Dydd Iau 23:00 – 04:00

Dydd Gwener 23:00 – 04:00

Dydd Sadwrn 23:00 – 04:00

Dydd Sul 23:00 – 04:00

Amseroedd ansafonol ar gyfer lluniaeth gyda'r hwyr:

- 23:00 tan 04:45 ar unrhyw ddydd Sul cyn dydd Llun gŵyl y banc, unrhyw ŵyl y banc, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, Nos Galan.
- 23:00 tan 04:45 ar adegau pan fydd y Fangre yn dangos darllediadau teledu byw o ddigwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol a darllediadau teledu byw eraill o bwys rhyngwladol, ar yr amod bod Tîm Trwyddedu Heddlu Gwent a'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn rhybudd 14 diwrnod cyn y digwyddiad sydd i gael ei gynnal.

Oriau

adloniant

a reoleiddir

(ffilmiau, digwyddiadau

chwaraeon

dan do, cerddoriaeth

fyw,

cerddoriaeth

wedi'i recordio,

perfformiad

dawns) (y cyfan
o dan do) Diwrnodau'r
wythnos:
Dydd Llun 07:00 – 04:00
Dydd Mawrth 07:00 – 04:00
Dydd Mercher 07:00 – 04:00
Dydd Iau 07:00 – 04:00
Dydd Gwener 07:00 – 04:00
Dydd Sadwrn 07:00 – 04:00
Dydd Sul 07:00 – 04:00

Amodau:

BYDD YR AMODAU CANLYNOL YN BERTHNASOL AR BOB ADEG PAN FYDD GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDADWY YN CAEL EU DARPARU YN Y FANGRE:

1. Rhaid i rif ffôn uniongyrchol rheolwr y fangre fod ar gael pan fo'r fangre ar agor. Bydd y rhif ffôn hwn ar gael i drigolion a busnesau yn y cyffiniau, yr Awdurdod Trwyddedu, a Thîm Trwyddedu Heddlu Gwent.
2. Rhaid i ddeiliad trwydded bersonol fod ar ddyletswydd yn y fangre ar bob adeg pan fydd y fangre ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.
3. Ni chaiff y Goruchwyliwr Mangre Dynodedig ar gyfer y fangre ei enwi fel Goruchwyliwr Mangre Dynodedig ar gyfer unrhyw fangre arall yn gydredol.
4. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre sicrhau bod y Goruchwyliwr Mangre Dynodedig ar ddyletswydd ar y safle am o leiaf dau benwythnos (nos Wener a nos Sadwrn) bob mis calendr (rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr).
5. Rhaid i'r fangre osod a chynnal a chadw system deledu cylch cyfyng gynhwysfawr, yn unol â gofynion sylfaenol Tîm Trwyddedu Heddlu Gwent. Rhaid i bob mynedfa ac allanfa gael eu fflmio fel bod modd adnabod wyneb unrhyw unigolyn sy'n mynd i mewn o dan unrhyw amodau goleuo. Rhaid i'r system deledu cylch cyfyng recordio'n barhaus tra bydd y fangre ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ac ar bob adeg pan fydd cwsmeriaid ar y safle. Rhaid i'r system deledu cylch cyfyng oruchwylio'r ardal allanol y tu allan i unrhyw fynedfeydd/allanfeydd yn y fangre. Rhaid i bob recordiad gael ei storio am o leiaf 31 diwrnod gyda stamp dyddiad ac amser. Rhaid i recordiadau fod ar gael i'w gwyllo ar unwaith ar gais Swyddog Awdurdod Cyfrifol drwy gydol y cyfnod o 31 diwrnod.
6. Rhaid i aelod o staff yn y fangre sy'n gyfarwydd â gweithrediad y system deledu cylch cyfyng fod yn y fangre ar bob adeg pan fydd y fangre ar agor. Rhaid i'r aelod hwn o staff allu darparu copiâu o recordiadau'r system deledu cylch cyfyng neu ddyddiad i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol pan ofynnir amdanynt gyda chyn lleied o oedi â phosibl.
7. Os bydd y system deledu cylch cyfyng neu ran ohoni yn methu, rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a Thîm Trwyddedu Heddlu Gwent o'r methiant cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddarganfod y methiant. Rhaid i unrhyw fethiant yn y system deledu cylch cyfyng gael ei gofnodi yng nghofrestr digwyddiadau'r fangre, gan gynnwys y dyddiad ac amser hysbysu ac enw'r unigolyn a hysbyswyd. Rhaid i fethiannau yn y system deledu cylch cyfyng gael eu cywiro gyda chyn lleied o oedi â phosibl a rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu a Thîm Trwyddedu Heddlu Gwent gael eu hysbysu pan fydd diffygion yn cael eu cywiro.
8. Rhaid i gofnod digwyddiadau gael ei gadw yn y fangre a bod ar gael i'r Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais. Rhaid cwblhau'r cofnod digwyddiadau o fewn 24 awr i "ddigwyddiad" a rhaid iddo gofnodi'r canlynol: pob trosedd a adroddir i'r lleoliad pob cwsmer sy'n cael ei fwrw allan

unrhyw gwynion a dderbyniwyd parthed trosedd neu anhrefn
unrhyw ddigwyddiadau o anhrefn
unrhyw atafaeliadau cyffuriau neu arfau
unrhyw ddiffygion yn y system deledu cylch cyfyng neu offer chwilio
unrhyw werthiant alcohol a wrthodwyd
unrhyw geisiadau am "Angela" neu debyg
unrhyw ymweliadau gan Awdurdod Cyfrifol neu wasanaeth brys

9. Os cyflawnir ymosodiad difrifol yn y fangre (neu os yw'n ymddangos ei fod wedi'i gyflawni),

bydd deiliad y Drwydded Mangre yn sicrhau'r canlynol ar unwaith:

- (a) y gelwir yr heddlu (a, lle bo'n briodol, y Gwasanaeth Ambiwlans) yn ddi-oed;
- (b) y cymerir pob cam sy'n rhesymol ymarferol i ddal unrhyw un o dan amheuaeth wrth aros am yr heddlu;
- (c) bod unrhyw safle trosedd yn cael ei gadw er mwyn galluogi ymchwiliad fforensig llawn; ac
- (d) y cymerir mesurau eraill o'r fath (fel y bo'n briodol) i amddiffyn diogelwch pobl eraill sy'n bresennol yn y fangre.

10. Bydd deiliad y Drwydded Mangre yn llunio, gweithredu a chynnal y polisiau canlynol ar gyfer y fangre:

- (a) Polisi Gwasgaru
- (b) Polisi Diogelu a Chwilio
- (c) Polisi Cyffuriau
- (d) Polisi Lles Cwsmeriaid (gan gynnwys polisi gwirio ardaloedd toiledau)
- (e) Polisi Rheoli Allanol
- (f) Polisi Hyfforddiant Staff

Rhaid i gopïau o'r polisiau hyn (a all fod yn electronig) gael eu cadw yn y fangre a bod ar gael i'w harchwilio gan Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais.

11. Bydd deiliad y Drwydded Mangre yn llunio, gweithredu a chynnal system hyfforddiant staff ar gyfer y fangre. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y canlynol (o leiaf):

- (a) Deddf Trwyddedu 2003 a'r amcanion trwyddedu;
- (b) Amodau'r Drwydded Mangre;
- (c) Gwirio oed;
- (d) Lles cwsmeriaid;
- (e) Polisiau a gweithdrefnau'r fangre;
- (f) Meddwdod;
- (g) Gwerthiannau dirprwyol;
- (h) Gwrthod gwasanaeth;
- (i) Rheoli gwrthdaro;
- (j) Adrodd am argyfyngau;
- (k) Gwacáu; a
- (l) Bygythiadau/digwyddiadau terfysgol.

Rhaid i'r holl hyfforddiant gael ei ddogfennu a'i gofnodi'n llawn yng nghofnodion hyfforddi'r aelodau staff. Rhaid i aelodau staff lofnodi i gydnabod eu bod wedi derbyn ac yn deall yr hyfforddiant a roddwyd. Rhaid ailadrodd yr hyfforddiant bob chwe mis o leiaf. Rhaid i gofnodion hyfforddiant gael eu cadw am o leiaf 12 mis a chael eu cyflwyno i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais.

12. Rhaid i'r fangre fod yn rhan o Radionet Canol Dinas Casnewydd.

13. Rhaid gweithredu cynllun profi oedran Herio 25 yn y fangre a'r unig ddulliau adnabod derbyniol fydd cardiau adnabod ffotograffig cydnabyddedig, megis trwydded yrru, pasbort, neu gerdyn prawf oedran gyda hologram PASS.

14. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre hysbysebu gweithrediad y cynllun Herio 25 ym mhob mynedfa i'r fangre ac mewn lleoliadau addas y tu mewn i'r fangre.
15. Ni chaniateir defnyddio'r fangre ar gyfer adloniant perthnasol.
16. Rhaid peidio â chaniatáu i unrhyw sŵn a gynhyrchir yn y fangre, neu gan ei pheiriannau neu gyfarpar cysylltiedig, gario o'r fangre nac i unrhyw ddirgryniadau gael eu trosglwyddo drwy adeiladwaith y fangre mewn modd a allai achosi niwsans.
17. Rhaid i'r fangre gymryd rhan yn y cynllun Ask for Angela (neu gynllun tebyg) a rhaid iddi hysbysebu ei bod yn rhan o'r cynllun mewn mannau amlwg o fewn y fangre, gan gynnwys yn nhoiledau'r cwsmeriaid. Rhaid i'r fangre gadw cofnod o unrhyw geisiadau am "Angela" yng nghofnod digwyddiadau'r fangre ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd. Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cyflwyno i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais.
18. Rhaid i hysbysiadau gael eu harddangos ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion a busnesau a gadael yr ardal yn dawel.
19. Rhaid i hysbysiadau gael eu harddangos yn amlwg mewn unrhyw fan a ddefnyddir ar gyfer ysmegu yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion a defnyddio'r ardal yn dawel.
20. Rhaid i'r holl alcohol a werthir i'w yfed oddi ar y safle gael ei werthu mewn cynwysyddion wedi'u selio yn unig ac ni ddylid ei yfed yn y fangre neu yn union y tu allan iddi, ac eithrio yn achos cwsmeriaid sy'n defnyddio unrhyw ardal eistedd allanol.
21. Ac eithrio poteli, rhaid i'r holl lestri yfed yn y fangre fod wedi'u gwneud o wydr wedi'i gryfhau neu bolycarbonad.
22. Rhaid i'r sŵn o chwarae cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo yn y fangre beidio â bod yn uwch na 97dB(A) wedi'i fesur fel Laeq, T dros gyfnod o bum munud.
23. Rhaid i deiliad y Drwydded Mangre gofrestru gyda Rhwydwaith Radio Grŵp Gwrth-drosedd Cyngor Dinas Casnewydd, sicrhau bod ganddo radio addas, a chadw at delerau'r cytundeb rhyngddo ef a Chyngor Dinas Casnewydd.
24. Ni fydd unrhyw blant o dan 18 oed ar eu pen eu hunain yn cael mynediad i'r fangre ar unrhyw adeg.
25. Rhaid darparu cyfleusterau glanweithiol addas a digonol ar gyfer pob rhyw ac yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid. Rhaid cadw'r cyfleusterau glanweithiol mewn cyflwr da a rhaid i bob gosodiad o'r fath gael ei lanhau, ei awyru a'i ddiheintio'n briodol ac yn effeithiol. Rhaid i bob gosodiad o'r fath gael ei gyflenwi â dŵr rhedeg a rhaid i'r drysau sy'n arwain at y cyfleusterau gael eu marcio'n addas.
26. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre sicrhau bod pobl sydd yn y fangre neu sy'n gadael y fangre yn ymddwyn yn drefnus ac nad ydynt yn achosi niwsans cyhoeddus.
27. Rhaid i'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig beidio â bod yn Mr Jack Bannister.
28. Rhaid i'r dirprwy reolwr (yn absenoldeb y Goruchwyliwr Mangre Dynodedig) beidio â bod yn Mr Jack Bannister.
29. Rhaid i'r fangre gadw rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig (ac, yn ei absenoldeb, y dirprwy reolwr). Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu a Thîm Trwyddedu Heddlu Gwent gytuno ar y restr o ddyletswyddau. Bydd yn ofynnol i'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig ac unrhyw ddirprwy reolwr lofnodi i gadarnhau eu bod yn deall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau a

bydd ail-gadarnhad yn ofynnol bob chwe mis o leiaf. Bydd cofnodion yn cael eu cadw am 12 mis ac yn cael eu cyflwyno i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais.

BYDD YR AMODAU CANLYNOL YN BERTHNASOL PAN FYDD Y FANGRE YN DARPARU GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDADWY CYN 22:00 AR UNRHYW DDIWRNOD:

30. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre asesu risgiau o ran yr angen i gyflogi goruchwylwyr drws sydd wedi'u trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn y fangre. Lle bo asesiad risg yn nodi y dylid defnyddio goruchwylwyr drws trwyddedig, yna bydd rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre gyflogi'r nifer o oruchwylwyr drws trwyddedig a nodir yn yr asesiad risg ac am yr amseroedd a nodir.

31. Pan fydd goruchwylwyr drws trwyddedig yn cael eu ddefnyddio, rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre gadw'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob goruchwylwr drws trwyddedig:

- (a) Ei enw llawn;
- (b) Ei rif gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch;
- (c) Y cwmni y mae wedi'i gontractio i weithio iddo;
- (d) Yr amser y dechreuodd ar ei ddyletswydd; ac
- (e) Yr amser y bu iddo gwblhau ei ddyletswydd.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chadw mewn cofrestr yn y fangre am gyfnod o 12 mis a rhaid iddi gael ei chyflwyno i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais.

32. Ni chaiff unrhyw unigolyn sydd wedi gweithio fel goruchwylwr drws sydd wedi'i drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn Vibe neu The Greyhound yn ystod y cyfnod rhwng 01/10/22 a 01/10/23 gael ei gyflogi yn y fangre fel goruchwylwr drws sydd wedi'i drwyddedu gan yr SIA.

33. Pan fydd goruchwylwyr drws trwyddedig yn gweithio yn y fangre, rhaid iddynt wisgo siacedi neu festiau gweladwy iawn a rhaid iddynt arddangos eu bathodyn SIA yn gywir fel y gellir ei weld ar bob adeg.

BYDD YR AMODAU CANLYNOL YN BERTHNASOL PAN FYDD Y FANGRE YN DARPARU GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDADWY AR ÔL 22:00 AR UNRHYW DDIWRNOD:

34. Ni chaniateir gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar ôl 22:00.

35. Ar ôl 22:00, rhaid i'r holl lestri yfed a ddefnyddir yn y fangre fod wedi'u gwneud o bolycarbonad neu blastig, ac eithrio: Diodydd a werthir mewn poteli gwydr, e.e poteli o gwrw. Siampên neu wirodydd eraill ag isafswm maint o 70cl a gyflenwir gan weinydd/gweinyddes i gwsmeriaid wrth fyrddau. Rhaid i staff glirio poteli gwag yn brydlon.

36. Ni fydd yn bosib defnyddio byrddau a chadeiriau allanol ar ôl 22:00 ar ddydd Gwener, ar ddydd Sadwrn, ar ddydd Sul gŵyl y banc ac yn ystod amserau ansafonol.

37. Rhaid peidio â darparu man yfed/seddi allanol o 22:00 ymlaen bob dydd.

38. O 22:00 ymlaen bob dydd, rhaid i aelod o staff gael ei ddynodi i fonitro a sicrhau lles cwsmeriaid.

39. Ni chaniateir mynediad (neu ailfyndiad) i'r fangre ar ôl 03:00 (04:00 yn ystod amseroedd ansafonol), ac eithrio i gwsmeriaid sydd wedi cael caniatâd i adael y fangre dros dro, e.e. i ysmegu, gwneud galwad ffôn ac ati.

40. Rhaid i'r cwsmeriaid a gaiff ganiatâd i adael yr eiddo dros dro, e.e. i ysmegu, gwneud galwad ffôn ac ati, gael eu cyfyngu i ardal ddynodedig a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan Heddlu Gwent

a'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid i unrhyw amrywiad i'r ardal hon gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Heddlu Gwent a'r Awdurdod Trwyddedu.

41. Ni chaniateir i unrhyw gwsmeriaid a gaiff ganiatâd i adael y fangre dros dro, e.e i ysmegu, gwneud galwad ffôn ac ati, fynd â diodydd gyda nhw, gan gynnwys i'r man ysmegu dynodedig (oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Heddlu Gwent a'r Awdurdod Trwyddedu).

42. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre ddarparu lleoliad diogel i gwsmeriaid adael eu diodydd, a fydd yn cael ei fonitro, tra byddant yn defnyddio'r ardal allanol ddynodedig.

43. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre sicrhau bod unrhyw giw i fynd i mewn i'r fangre sy'n ffurfio y tu allan i'r fangre yn drefnus ac yn cael ei oruchwylio gan oruchwyliwr drws trwyddedig i sicrhau na achosir unrhyw niwsans cyhoeddus na rhwystr i'r briffordd gyhoeddus.

44. O 22:00 ymlaen, rhaid i system giwio gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwyddedu a Thîm Trwyddedu Heddlu Gwent.

45. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre arddangos hysbysiad wrth fynedfa'r fangre ac wrth fynedfa'r ciw yn hysbysu cwsmeriaid bod cytuno i gael eu harchwilio yn amod ar gyfer mynediad ac y bydd yr heddlu'n cael gwybod am unrhyw sylweddau dan reolaeth neu arfau a ddarganfyddir yn ystod archwiliad.

46. Ni chaiff unrhyw gwsmer fynediad i'r fangre (neu ailfynediad os ydynt wedi gadael yr ardal allanol) oni bai eu bod wedi: Pasio trwy fwa canfod metel ac wedi cael eu harchwilio'n gorfforol (ffrisgio) gan oruchwyliwr drws trwyddedig; neu wedi'u sganio gyda ffon synhwyro fetel a'u harchwilio'n gorfforol (ffrisgio) gan oruchwyliwr drws trwyddedig. Rhaid i archwiliadau gynnwys naill ai synhwyrdd metel neu sgan â ffon ac archwiliad corfforol o'r holl gwsmeriaid.

47. Ni chaiff unrhyw gwsmer sydd â bag yn ei feddiant fynediad i'r fangre (neu ailfynediad os yw wedi gadael yr ardal allanol) heb archwiliad bag llawn.

48. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre ddefnyddio goruchwylwyr drws trwyddedig a'u gosod yn y fangre fel a ganlyn (o leiaf) o ddydd Sul i ddydd Iau (ac eithrio gwyliau banc): Un (1) goruchwyliwr drws trwyddedig wrth y fynedfa i'r fangre.

Un (1) goruchwyliwr drws trwyddedig y tu mewn i'r fangre.

Un (1) goruchwyliwr drws trwyddedig yn yr ardal VIP / i fyny'r grisiau (os yw ar agor).

Rhaid i oruchwylwyr drws trwyddedig gael eu defnyddio o 21:00 tan 30 munud ar ôl i'r fangre gau i'r cyhoedd.

49. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre ddefnyddio goruchwylwyr drws trwyddedig a'u gosod yn y fangre fel a ganlyn (o leiaf) ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn, gŵyl y banc, neu unrhyw amseroedd ansafonol eraill:

Dau (2) oruchwyliwr drws trwyddedig wrth fynedfa'r ciw.

Dau (2) oruchwyliwr drws trwyddedig y tu mewn i'r fangre.

Un (1) goruchwyliwr drws trwyddedig yn yr ardal VIP / i fyny'r grisiau (os yw ar agor).

Un (1) goruchwyliwr drws trwyddedig yn monitro'r man ysmegu.

Rhaid i oruchwylwyr drws trwyddedig gael eu defnyddio o 21:00 tan 30 munud ar ôl i'r fangre gau i'r cyhoedd.

50. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre sicrhau bod y goruchwylwyr drws trwyddedig yn cadw cofnod cywir o'r nifer o gwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw un adeg trwy ddefnyddio clicwyr i gyfrif cwsmeriaid wrth iddynt fynd i mewn i'r fangre ac allan ohoni.

51. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre gadw'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob goruchwyliwr drws trwyddedig:

(a) Ei enw llawn;

(b) Ei rif gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA);

- (c) Y cwmni y mae wedi'i gontractio i weithio iddo;
- (d) Yr amser y dechreuodd ar ei ddyletswydd; ac
- (e) Yr amser y cwblhaodd ei ddyletswydd.

52. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chadw mewn cofrestr yn y fangre am gyfnod o 12 mis a rhaid iddi gael ei chyflwyno i Swyddogion Awdurdod Cyfrifol ar gais. Ni chaiff unrhyw unigolyn sydd wedi gweithio fel goruchwyliwr drws sydd wedi'i drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn VibeZ neu The Greyhound yn ystod y cyfnod rhwng 01/10/22 a 01/10/23 gael ei gyflogi yn y fangre fel goruchwyliwr drws sydd wedi'i drwyddedu gan yr SIA.

53. Pan fydd goruchwylwyr drws trwyddedig yn gweithio yn y fangre, rhaid iddynt wisgo siacedi neu festiau gweladwy iawn a rhaid iddynt arddangos eu bathodyn SIA yn gywir fel y gellir ei weld ar bob adeg.

54. Rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre gynnal asesiad risg o ran yr angen i gyflogi goruchwylwyr drws trwyddedig ychwanegol yn y fangre. Os yw'r asesiad risg yn nodi y dylid defnyddio goruchwylwyr drws trwyddedig ychwanegol, yna rhaid i ddeiliad y Drwydded Mangre ddefnyddio'r nifer ychwanegol o oruchwylwyr drws trwyddedig a nodir yn yr asesiad risg ac am yr amseroedd a nodir.

55. Rhaid i'r goruchwylwyr drws trwyddedig wirio'n weithredol nad yw cwsmeriaid sy'n gadael y fangre yn cario poteli gwyr ac, os ydynt yn cael eu darganfod, rhaid iddynt gael eu rhwystro rhag mynd â hwy o'r fangre.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
